**ARGYMHELLION CYFARFOD MWYNDERAU**
**A GYNHALIWYD AR 21ain o Orffennaf 2025 7PM**

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Morwenna Pugh (Cadeirydd)

Peter Jones

David Meirion Jones

Geoffrey Watson Jones

Rory Francis

Sioned Graham-Cameron (Clerc y Dref)

Ellen Pugh (Dirprwy Glerc y Dref)

1. **Derbyn Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
   Derbyniodd y Pwyllgor ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths, Troy Mclean, Dewi P Williams ac Gareth Glyn Davies.
2. **Datgan Buddiannau**
   Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.
3. **Cyfranogiad y Cyhoedd**
   Nid oedd unrhyw gyfranogiad gan y Cyhoedd.
4. **Caeau Chwarae**
   Awgrymir y Cynghorydd Mark Thomas i'r clercod ychwanegu'r gwaith sydd angen ei wneud yn y Caeau Chwarae at restr gwaith y swyddog cynnal a chadw, a chytunodd gweddill y pwyllgor. Nododd y clerc y fallai fod eitemau ar y rhestr na fydd y swyddog yn gallu eu cyflawni.

   Adroddodd y Dirprwy Glerc fod yr Swyddog Archwilio Caeau Chwarae wedi codi pryderon fod y ffens yn Gofgolofn Llan yn anniogel, hyd yn oed ar ôl ymdrechion i'w gwneud yn fwy diogel. Cynigiodd y Cynghorydd David Meirion Jones y dylai'r clercod ofyn i'r swyddog cynnal a chadw am ddyfynbris ar gyfer y gwaith angenrheidiol. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Rory Francis, cytunodd y Pwyllgor.

5. **Llwybrau Cerdded**
   Cynigiodd y Cynghorydd Mark Thomas y dylai'r Cyngor ofyn i Gyngor Gwynedd ystyried ailosod y bont ar y llwybr troed. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Rory Francis, a chytunodd y pwyllgor.

   Eglurodd y Dirprwy Glerc fod rhestr llwybrau troed y Cyngor ychydig yn hen ffasiwn, gan nad oedd rhai llwybrau hanesyddol yn ymddangos ar fapiau Arolwg Ordnans nac ar restr y Cyngor Sir. Nododd ei bod yn adolygu'r rhestr hon i ganfod pa lwybrau nad oecdd modd eu cerdded bellach.

6. **Rhestr Waith y Swyddog Cynnal a Chadw.**
   Adroddodd y Clerc fod tyfiant wedi dechrau dod i fyny drwy'r llawr yn y Cwt Canŵ, a bod y swyddog cynnal a chadw wedi gofyn a allai osod rhywbeth i'w atal.

   Nododd y Cadeirydd ei bod wedi siarad â'r unigolyn a brynodd yr hen offer Crazy Golf, a bod y mater hwn yn cael ei symud yn fuan.

7. **Diweddariad ar Faes Parcio'r Berllan**
   Eglurodd y Clerc fod y Cyngor wedi derbyn y PDF a anfonwyd gan yr archifydd. Roedd hi wedi rhoi ymatebion ond heb dderbyn ateb eto.

8. **Gohebiaeth gan Aelod o'r Cyhoedd - Cais am Ragor o Gyfleusterau/Gwelliannau ym Mharc Manod.**
   Trafododd y Cyngor y neges a dderbyniwyd. Cynigiodd y Cynghorydd Mark Thomas y dylai'r Cyngor ofyn am ddyfynbris ar gyfer llithren newydd. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Geoffrey Watson Jones, a chytunodd y

DRAFT

pwyllgor. Cytunodd y pwyllgor hefyd i ymateb i'r llythyr, gan nodi'r hyn a wnaed yn ddiweddar yn y maes chwarae, yr hyn sy'n cael ei gynllunio ar gyfer y dyfodol, a gofyn am ragor o wybodaeth.

Adroddodd y Clerc faint o arian oedd wedi'i wario ar y parciau hyd yma ac egluro faint o arian oedd ar ôl.

9. **Cais gan Dîm Pêl-rwyd Leol - Marciau Pêl-rwyd ar Ardal Chwaraeon yn y Parc.**
   Cytunodd y pwyllgor i ofyn i'r contractwr a osododd y MUGA am ddyfynbris ar gyfer ychwanegu llinellau pêl-rwyd.

10. **Cais gan Chwarae Gwynedd - Ymweliad â Sgwâr Blaenau Ffestiniog gyda Threlar Chwarae.**
    Cytunodd y pwyllgor i ddefnyddio'r Parc, gyda'r Cynghorydd David Meirion Jones yn cynnig a'r Cynghorydd Geoffrey Watson Jones yn eilio. Gofynnodd y Cynghorydd Mark Thomas iddynt gael eu hatgoffa mai hwy sy'n gyfrifol am y safle.

11. **Materion Parhaus yn y Parc - Sbwriel a Threfniadau Mynediad.**
    Adroddodd y Cadeirydd a'r Clerc fod yr heddlu a phlant lleol wedi gwirfoddoli ar y safle ac wedi llwyddo i lenwi pedwar bag bin.

    Nododd y Cadeirydd, pe bai'r Cyngor yn fodlon cael rhywun i wneud y gwaith nes y byddai penodiad swyddogol, bod aelod o'r cyhoedd ar gael.

    Cytunodd y pwyllgor y gallai'r unigolyn hwn agor a chau'r parc a chasglu sbwriel ar sail dros dro, tra byddai'r clercod yn hysbysebu'r contract gweithiwr parc am bythefnos. Cytunwyd ar 7 awr yr wythnos, i'w adolygu ymhen tri mis, wedi'i gynnig gan y Cynghorydd Geoffrey Watson Jones ac wedi'i eilio gan y Cynghorydd David Meirion Jones.

    Cynigiodd y Cynghorydd David Meirion Jones gyflog ar y Lefel Isafswm Cyflog a chafodd hyn ei eilio gan y Cynghorydd Geoffrey Watson Jones. Cytunodd y pwyllgor.

12. **Arolygu a Thrafod Adroddiad 2025 RoSPA.**
    Cytunodd y pwyllgor y byddai'r Clerc yn ychwanegu'r gwaith angenrheidiol at restr y swyddog cynnal a chadw, ac am unrhyw dasgau na allai'r swyddog eu cyflawni, y byddai'r clercod yn gofyn i GL Jones. Cynigiodd y Cynghorydd David Meirion Jones hyn ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Geoffrey Watson Jones a chytunodd y pwyllgor.

    Cynigiodd y Cynghorydd Geoffrey Watson Jones hefyd y dylai'r clercod ofyn i GL Jones am brisiau ar gyfer yr offer oedd wedi dechrau dirywio, er mwyn sicrhau digon o ddarpariaeth yng nghyllideb y Cyngor. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd David Meirion Jones a chytunwyd gan y pwyllgor.

13. **Adroddiad Gwaith Mwynderau'r Clercod - Gwaith a Gwblhawyd**
    Derbyniodd y pwyllgor ddiweddariad ar y tasgau a oedd wedi'u cwblhau neu'n mynd rhagddynt ers y cyfarfod Mwynderau diwethaf.

**Daeth y cyfarfod i ben 7:55PM**

DRAFT